



**cartrefi gwell, dyfodol disglair  
better homes, brighter future**

**DATGANIAD I'R WASG  
Ionawr 2010**

## **Bydd cadw cyrchu'n lleol yn helpu busnesau a swyddi yng Ngheredigion**

Gyda £136 miliwn i'w gwario yn ystod y 30 mlynedd nesaf mae Tai Ceredigion yn chwilio am gyflenwyr a busnesau lleol i'w helpu i wella cartrefi lleol. Mae comisiynu adeiladwyr a chrefftwyr lleol yn flaenoriaeth gan y corff tai newydd ac mae'n gwneud dechreuad da gydag achlysur 'Cwrdd â'r prynwr' ar ddiwedd y mis hwn.

Mae'r datblygiad yn dod wrth fod y fasnach adeiladu leol wedi gweld busnes yn dirywio yn y dirwasgiad ac mae'r cyfle newydd hwn yn cael ei groesawu'n frwd gan fusnesau lleol. Mae ymrwymiad Tai Ceredigion i gyrchu'n lleol yn rhan o'i agenda gynaliadwyedd.

Cynhelir y digwyddiad, a drefnir ar y cyd â Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, yng Ngwesty Tŷ Glyn, Ciliau Aeron ar ddydd Iau 28<sup>ain</sup> Ionawr rhwng 8am a 10am lle gall cwmnïau adeiladu lleol ddysgu rhagor am gynlluniau cyrchu Tai Ceredigion ar gyfer buddsoddiad, cynnal a chadw cyffredinol a gwaith adnewyddu.

Tai Ceredigion yw'r gymdeithas tai ddi-elw newydd, â'i phencadlys yn yr ardal leol, a fydd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r cyngor a phartneriaid eraill sy'n gweithredu yn yr ardal i helpu i gwrdd ag anghenion tenantiaid, preswylwyr a lesddeiliaid Ceredigion.



## cartrefi gwell, dyfodol disglair better homes, brighter future

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion “Mae hyn yn gyfle gwych i grefftwyd a chwmnïau lleol ddod i gwrdd â ni a chael gwybod beth yw ein cynlluniau at y dyfodol o ran gwella tai.”

“Ers i’r trosglwyddiad ddigwydd y mis diwethaf mae gennym 2229 o gartrefi rhent a 140 o anheddau lesddaliadol y mae angen cynnal a chadw arnynt i gyd a dod â nhw i fyny at Safon Ansawdd Tai Cymru.”

Mae gan Dai Ceredigion statws elusennol, sy’n sicrhau y gellir buddsoddi mwy o incwm yn ôl mewn gwella cartrefi tenantiaid a rhedeg y gwasanaeth tai.

Cafodd y trosglwyddiad ei gymeradwyo gan fwyafrif y tenantiaid ac mae’n rhyddhau cynnydd anferthol yn y cyllid sydd ar gael at y gwaith cynnal a chadw a gwella eiddo a gynllunnir ac yn y tymor hwy cartrefi a adeiledir yn newydd i bobl leol.

Mae Tai Ceredigion yn arfaethu gwario hyd at £40m yn ystod y pum mlynedd nesaf ar welliannau ac y mae wedi dechrau ymgynghori â thenantiaid a lesddeiliaid ynghylch cyflawni’r rhaglen hon.

**DIWEDD**